



Taliadau Arddangos: Canllawiau a-n/AIR ar Dalu Artistiaid

Ar gyfer artistiaid a sefydliadau sy'n arddangos (Argraffiad Cyntaf)





Taliadau Arddangos: Canllawiau a-n/AIR ar Dalu Artistiaid

Ar gyfer artistiaid a sefydliadau sy'n arddangos (Argraffiad Cyntaf)

a-n yw sefydliad aelodaeth mwyaf y DU, ac mae'n cynorthwyo ein 20,000+ o artistiaid gweledol proffesiynol. Lansiodd yr Ymgyrch Talu Artistiaid yn 2014 trwy a-n a'i gyngor cynghori artistiaid (AIR), a hynny mewn ymateb i anghenion a dyheadau ein haelodau. Fe'i seiliwyd ar dystiolaeth a gasglwyd trwy waith ymchwil am effaith arferion talu gwael ar artistiaid. Cyflawnwyd Ymgynghoriad Talu'r Sector Artistiaid (2014-2016) gan a-n ac AIR, gyda DHA Communications, a chasglwyd safbwyntiau bron i 2,000 o unigolion o bob rhan o'r sector. Bwydodd canfyddiadau'r ymgynghoriad y canllawiau a'r fframwaith hwn yn uniongyrchol.

Taliad Arddangos yw....

... taliad i artistiaid sy'n gwerthfawrogi eu dychymyg unigryw a'u cyfraniad proffesiynol at lwyddiant arddangosfeydd a ariennir gan arian cyhoeddus. Dull hyblyg a theg yw hi sy'n cynnal cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes y celfyddydau. Mae'n cyfrannu at sefydlu arferion gorau yn sefydliadau'r celfyddydau wrth weithio gydag artistiaid, er mwyn cynnal gyrfaedd artistiaid a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gweld bod celfyddyd yn cynrychioli holl gwmpas profiadau dynol.

Nid yw'n...

...fater o dalu artistiaid i osod y gwaith celf i'w arddangos, ac nid yw'n cymryd lle'r ffoedd ar sail cyfradd ddyddiol a delir i artistiaid fel rheol (er enghraifft, fel rhan o gomisiwn, am gynnal sgysiau cyhoeddus, cyfnodau preswyl, arferion celfyddydol cydgysylltiol neu gyfranogol, gweithdai, prosiectau cymunedol neu raglenni addysg a dysgu mewn orielau). Nid yw'n fater o dalu costau rhaglennu neu drefnu sylfaenol y dylai'r sefydliad ei hun gyllidebu ar eu cyfer, nac am brynu gweithiau celf neu hawlfreintiau gan artistiaid. Nid mater o atal artistiaid rhag gweithio am ddim pan fyddant yn dewis (ac yn gallu fforddio) gwneud hynny mo Taliadau Arddangos, na gosod hualau ar fannau arddangos.

I bwy mae hyn yn berthnasol?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer artistiaid a sefydliadau, ac i brosiectau neu sefydliadau parhaol neu dros dro sy'n derbyn cyllid cyhoeddus er mwyn cyflwyno'r celfyddydau gweledol i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cyhoeddus mewn orielau, amgueddfeydd, canolfannau'r celfyddydau, stiwdios, gofod dan arweiniad artistiaid a gwyliau (er nad yw'r rhestr yn hollol gynhwysfawr) (gweler y Rhestr Termâu).

Datblygwyd y canllawiau hyn mewn ymgynghoriad â'r sector a Chyngor Celfyddydau Lloegr, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Cymru.

I gael arweiniad am daliadau arddangos teg yng Ngogledd Iwerddon, gydag ardystiad Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, ewch i [Ganllawiau Talu Artistiaid Gweledol Proffesiynol](#) Visual Artists Ireland.

Ar gyfer grwpiau dan arweiniad artistiaid sy'n gweithio gyda chronfeydd cyfyngedig, mae dull ar wahân o fynd ati i sicrhau arferion da ym [Maniffesto Dan Arweiniad Artistiaid](#) Talu Artistiaid.

Ni all y canllawiau hyn gynnwys pob math o amrywiadau, amgylchiadau neu sefyllfaoedd. Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus, a dehonglwrch nhw yn yr ysbryd a fwriedir - fel canllawiau ymarferol ac arferion gorau sy'n berthnasol i'r mwyafrif helaeth o sefyllfaoedd arddangos.

Mae'r Rhestr Termâu ar dudalen 14 yn esbonio'r termâu allweddol sy'n ymddangos mewn print bras.

Pedair egwyddor craidd y canllawiau ar Daliadau Arddangos ar gyfer artistiaid a sefydliadau



Tryloywder



Cyllidebu



Negodi



Cadarnhad ysgrifenedig

Tryloywder

Sicrhewch fod gan y sefydliad dystiolaeth o'ch profiad proffesiynol ar ffurf CV, blog neu gysylltiadau â'ch gwefan neu'ch portffolio.

Gofynnwch i'r sefydliad am wybodaeth am ei bolisi rhaglennu a Thaliadau Arddangos er mwyn pwyso a mesur graddfa a chwmpas y sefydliad a'i allu i'ch talu.

Wyneb yn wyneb, gofynnwch "Beth yw eich polisi ar Daliadau Arddangos?"

Cyllidebu

Defnyddiwch [becyn cymorth Ffioedd Artistiaid](#) a-n neu offer arall sydd ar gael i glustnodi a chyfrifo'ch anghenion o ran incwm cyn paratoi cyllidebau a chynigion, neu negodi Taliadau Arddangos.

Defnyddiwch y Fframwaith Taliadau Arddangos (tudalen 11) i glustnodi taliad sy'n teimlo'n deg i'w gynnwys yn eich cyllideb a negodwch ar sail hyn – cofiwch ystyried eich anghenion o ran incwm, eich profiad proffesiynol a'ch enw da, y math o arddangosfa sydd o dan sylw, a chategori'r trefnydd o ran Taliadau Arddangos.

Darparwch gynnig arddangos a chyllideb clir ar gyfer y trefnydd ymlaen llaw. Sicrhewch eich bod chi'n cynnwys llinell ar wahân yn y gyllideb ar gyfer y Taliad Arddangos fel ei fod yn cael ei glustnodi ar wahân i'r costau cynhyrchu eraill, a'r gweithgareddau eraill ar gyfradd ddyddiol fel taliadau gosod.

Os yw'r trefnydd wedi dilyn arferion gorau, bydd wedi cyllidebu ar gyfer y Taliad Arddangos, ac yn ei dalu i chi. Os ydych chi'n derbyn buddion anariannol, dylid cofnodi'r rhain ar y gyllideb fel cyfraniad ariannol.

Os ydych chi wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu gwaith newydd ar gyfer trefnydd, ni ddylai hyn nacáu'r Taliad Arddangos - gofynnwch i'r trefnydd gadarnhau beth mae'r ffi comisiynu'n ei gwmpasu, a beth nad yw'n ei gwmpasu.

Mae cyllidebu'n clustnodi eich 'gwaelodlin', ac i ba raddau rydych chi'n fodlon negodi'r trefniadau ariannol.

Negodi

Dylai cytuno ar Daliad Arddangos gyda sefydliad fod yn flaenoriaeth. Os na wnewch chi hyn, gallech wastraffu amser yn cytuno ar agweddau eraill ar yr arddangosfa, cyn canfod na allwch gytuno ar daliad.

Gellir negodi Taliadau Arddangos i fyny neu i lawr, yn dibynnu ar yr amrywiolion a glustnodir wrth gyllidebu. Mae'n bosibl na fydd angen negodi os yw'r taliad a gynigir yn cyd-fynd â'r hyn sy'n deg yn eich llygaid chi.

Os nad ydych chi'n meddwl bod y Taliad Arddangos a gynigir yn deg, archwiliwch beth y gall y sefydliad ei wneud i fodloni eich cais am daliad, neu adolygwch natur neu gwmpas yr arddangosfa a gynigir ar sail y gyllideb sydd ar gael.

I gael cyngor am beth yw buddion anariannol, a phryd i'w hystyried, cyfeiriwch at y Rhestr Termau (tudalen 14), neu at [Fanifesto dan Arweiniad Artistiaid](#) Talu Artistiaid.

Cofiwch fod lefelau'r cyllid cyhoeddus y mae sefydliadau'n ei dderbyn yn amrywio, a gall fod yna gyfyngiadau ar fathau penodol o ddefnydd o ran y cyllid. Dyma pam y mae proses negodi fesul achos yn bwysig er mwyn llwyr werthfawrogi cyd-destun ariannol eich taliad.

Byddwch yn barod i wrthod cynnig i arddangos os nad oes unrhyw Daliad Arddangos, os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n cael eich gofyn i gymorthdal rhaglen y sefydliad, neu os na allwch fforddio cymryd yr arddangosfa am yr arian a gynigir.

Cadarnhad ysgrifenedig

Gofynnwch am gadarnhad o'r manylion ariannol a'r manylion arddangos rydych wedi cytuno arnynt. Dylai hyn fod ar ffurf contract (gallwch ddefnyddio'r cytundeb Arddangos ym mhecyn cymorth [Contractau a-n](#) er mwyn llunio cytundeb pwrpasol) neu lythyr cytundeb.

Beth bynnag fo ffurf y cytundeb, dylai bennu'n glir yr amserlen waith cymeradwy a'r dyddiadau cyflawni, swm a dyddiadau'r taliadau ariannol a wneir (gan gynnwys y Taliadau Arddangos a gwerth unrhyw fuddion anariannol a gymeradwywyd).

Os nad yw'r sefydliad yn darparu cadarnhad ysgrifenedig o'r taliad arddangos, cewch grynhoi beth a gytunwyd a rhannu'ch crynodeb â nhw.

Nod y broses a bennir yma yw helpu i rhag-weld anawsterau a allai godi ar y naill ochr neu'r llall trwy hyrwyddo partneriaethau gwaith lle mae parch rhwng y naill ochr a'r llall. Os oes anhawster, codwch y rhain gyda'r sefydliad, ac os oes angen, gyda bwrdd neu grŵp ymgynghorol y sefydliad.

Tryloywder

Byddwch yn dryloyw yn eich arferion gwaith gydag artistiaid trwy gyhoeddi polisiau sy'n dangos yn glir ddull eich sefydliad o fynd ati i ddarparu Taliadau Arddangos teg. Gallwch wneud hyn trwy ryddhau gwybodaeth berthnasol ar eich gwefan, neu trwy sefydlu polisi Taliadau Arddangos. Sut bynnag yr ewch chi ati, dylai fod yn rhywbeth y gallwch ei ryddhau i artistiaid, arianwyr a budd-ddeiliaid ar gais fel tystiolaeth o'r ffordd rydych chi'n gweithio gydag artistiaid ac yn eu talu, neu sut rydych chi'n gweithio tuag at ddarparu Taliadau Arddangos teg.

Gall rhai sefydliadau ddewis cynnwys y wybodaeth yma mewn polisiau taliadau teg, neu mewn polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gall y wybodaeth sefydliadol sy'n bwydo tryloywder gynnwys rhannu gwybodaeth am nifer gyfartalog, amrywiaeth a'r mathau o arddangosfeydd y mae eich sefydliad yn eu llwyfannu'n flynyddol; y mathau o artistiaid rydych chi'n gweithio gyda nhw a pham; sut mae eich arddangosfeydd yn cael eu hariannu fel rheol; eich cyllideb ar gyfer eich rhaglen flynyddol o arddangosfeydd; eich Taliadau Arddangos blynyddol i artistiaid; ac i ba gategori bras (A i D - gweler tudalen 12) o ran y Fframwaith y mae eich sefydliad yn perthyn. Os yw eich sefydliad yn talu ffioedd sefydlog yn unig, dywedwch faint, cynhwyswch hyn yn eich polisi neu'ch datganiad, a rhannwch y peth â'r artistiaid ar y cychwyn.

Wrth droi at artist, byddwch yn glir ynghylch maint a chwmpas yr arddangosfa benodedig rydych chi'n gofyn iddynt ymrwymo iddi, gan gynnwys sut y caiff ei hariannu, swm y cyllid sydd eisoes ar gael, a faint sydd i'w ddiogelu o hyd.

Gofynnwch i'r artistiaid ddarparu cyllideb gyda chynnig ar gyfer yr arddangosfa a gofynnwch iddynt glustnodi Taliad Arddangos o fewn hyn.

Darparwch dystiolaeth o arferion gorau trwy gynnwys Taliadau Arddangos mewn adroddiadau sefydliadol, adroddiadau i'r bwrdd ac adroddiadau i fudd-ddeiliaid, ac wrth gyflwyno adroddiadau ar y prosiect i'r arianwyr.

Cyllidebu

Defnyddiwch y Fframwaith Taliadau Arddangos i feincnodi a chlustnodi Taliadau Arddangos teg sy'n cyd-fynd â chyllideb rhaglen arddangos flynyddol eich sefydliad, y math o arddangosfa sydd gennych mewn golwg, a beth rydych chi'n ei wybod am brofiad ac enw da'r artist.

Dylai arfer gorau olygu eich bod yn cyllidebu ar gyfer Taliadau Arddangos, ac yn eu talu i'r artist. Os yw'r artist yn dewis (ac yn gallu fforddio) ildio'r Taliad Arddangos yn gyfan, neu ran ohono, dylid cofnodi hynny fel cyfraniad ariannol at y gyllideb.

Dylid cynnwys llinell ar gyfer Taliadau Arddangos i artistiaid mewn cyllidebau a chyfrifon rheoli, a hynny ar wahân i gostau cynhyrchu, deunyddiau, cludiant, gosod, costau technegol ac ati yr arddangosfa o dan sylw.

I gael cyngor am fuddion anariannol, cyfeiriwch at y Rhestr Termiau (tudalen 14), neu at [Fanifesto dan Arweiniad Artistiaid](#) Talu Artistiaid.

Os ydych chi'n comisiynu artist i greu gwaith newydd ar gyfer eich sefydliad, nid yw hyn yn nacáu'r Taliad Arddangos - bydd hyn yn dibynnu ar bolisi comisiynu eich sefydliad. Cadarnhewch gyda'r artist beth y mae'ch ffi comisiynu'n ei gwmpasu, a beth nad yw'n ei gwmpasu.

Negodi

Cynhaliwch gyfarfod gyda'r artist i drafod a chytuno ar y Taliad Arddangos, ac yna costau cynhyrchu arfaethedig yr arddangosfa (e.e. deunyddiau, cyfleusterau, cludiant, gwasanaethau technegol ac ati). Trwy gytuno ar y Taliad Arddangos a'i glustnodi'n gyntaf, gall yr holl drafodaethau dilynol ganolbwyntio ar gostau cynhyrchu'r arddangosfa.

Oni bai eich bod chi'n cynnig ffi sefydlog yn unig, byddwch yn barod i negodi am i fyny (yn unol â phrofiad yr artist ac i'r fath raddau y mae eich cyllideb yn ei ganiatáu).

Mae hi'n bosibl na fydd angen negodi'r Taliad Arddangos os yw'r artist yn teimlo eich bod chi wedi gwneud cynnig teg. Os nad dyna yw'r achos, trafodwch natur a chwmpas yr arddangosfa rydych am ei chyflawni yn erbyn y gyllideb sydd ar gael i chi.


Mae gan bob artist wahanol amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd a allai ddylanwadu ar eu gallu i gyflawni arddangosfa yn eich sefydliad. Mae hi'n bwysig cydnabod amgylchiadau ariannol unigol yr artist trwy negodi fesul achos.

Cadarnhad ysgrifenedig

Darparwch gadarnhad ysgrifenedig o'r manylion ariannol a manylion yr arddangosfa rydych wedi cytuno arnynt. Gall hyn fod yn gontract ffurfiol (gellir defnyddio'r cytundeb Arddangos sydd ym [mhecyn cymorth Contractau](#) a-n i greu contract pwrpasol) neu lythyr cytundeb.

Beth bynnag fo ffurf y cytundeb, dylai bennu'n glir yr amserlen waith cymeradwy a'r dyddiadau cyflawni, swm a dyddiadau'r taliadau ariannol a wneir (gan gynnwys y Taliadau Arddangos a gwerth unrhyw fuddion anariannol a gymeradwywyd).

Nod y broses a bennir yma yw helpu i rag-weld anawsterau a allai godi ar y naill ochr neu'r llall trwy hyrwyddo partneriaeth gwaith lle mae parch rhwng y naill ochr a'r llall. Os bydd anhawster yn codi, dylai fod gennych broses i ymdrin â chwynion, neu dylech gyfeirio'r peth at eich bwrdd neu'ch grŵp ymgynghorol.



Y Fframwaith Taliadau Arddangos

Sut mae'n gweithio?

Mae'r Fframwaith yn grwpio sefydliadau'r celfyddydau gweledol a ariennir yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn bedwar prifategori. Mae gan bob un ddisgrifiad dangosol byr i helpu'r artistiaid a'r sefydliadau i glustnodi'r categori cywir.

Mae pob categori'n dangos dau Daliad Arddangos - y naill am waith newydd, a'r llall am waith sy'n bodoli eisoes:

Gwaith newydd yw darn o waith sy'n cael ei arddangos am y tro cyntaf, a grëwyd gan yr artist yn ddiweddar, ac sydd wedi cael ei ddewis i'w arddangos gan y sefydliad (yn hytrach na darn o waith sydd wedi cael ei gomisiynu'n benodol gan y sefydliad ac y mae'r sefydliad wedi talu amdano. Gweler y Rhestr Termau: *Gwaith Comisiwn*)

Gwaith sy'n bodoli eisoes yw gwaith a grëwyd gan yr artist eisoes, a all fod wedi cael ei arddangos eisoes, ac na grëwyd yn benodol ar gyfer yr arddangosfa o dan sylw

Mae'r Fframwaith (sydd at ddefnydd yr artistiaid a'r sefydliadau fel ei gilydd) yn dangos taliadau ar gyfer arddangosfeydd y celfyddydau gweledol fel canllaw i gychwyn negodi â'r bwriad o arwain at Daliad Arddangos teg.

Gellir negodi taliadau i fyny neu i lawr yn dibynnu ar y ffactorau a glustnodir o dan 'Cyllidebu' (gweler tudalennau 6 ac 8). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys TAW (lle bo hynny'n berthnasol).

Mae'r Fframwaith yn berthnasol i bob sefydliad (parhaol neu dros dro) sy'n derbyn cyllid cyhoeddus at ddibenion cyflwyno'r celfyddydau gweledol i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys orielau, amgueddfeydd, canolfannau'r celfyddydau, stiwdios, gofod dan arweiniad artistiaid a gwyliau (er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr) yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (gweler y Rhestr Termau: *Sefydliadau*).

Caiff y Canllawiau a'r Fframwaith Taliadau Arddangos eu hadolygu a'u helaethu yn ystod y cyfnod gweithredu 2017-2022, gyda mewnbwn arbenigol gan y Gweithgor Talu Artistiaid ac yn seiliedig ar arolygon o'r sector a gyflawnir gan a-n. Cyhoeddir diwygiadau i'r Canllawiau yn ôl yr angen. Cyflawnir diwygiadau i'r Fframwaith ar ddiwedd y cyfnod gweithredu hwn.

Bydd Cyngor Celfyddydau Lloegr, Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Cymru'n disgwyl i sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid o 2017 ymlaen ddarparu tystiolaeth o daliadau teg i artistiaid.

Categoriâu'r Fframwaith

Dan arweiniad yr artist ac wedi ei ariannu gan brosiectau: Dylai sefydliadau â rhaglenni artistig blynyddol o lai na £50,000 (sef, yn fwy na thebyg, gofod dan arweiniad artistiaid, prosiectau, neu raglenni sy'n dibynnu ar gyllid o brosiectau cyhoeddus hyd at £50,000) gyfeirio at [Maniffesto Dan Arweiniad Artistiaid](#) Talu Artistiaid am gyngor ar sefydlu egwyddorion taliadau teg.

Categori A

Gwaith newydd: £1,500

Gwaith sy'n bodoli eisoes: £750

Dyma'r grŵp mwyaf o sefydliadau a ariennir o bell ffordd. O'r rhai sy'n cyflwyno arddangosfeydd i'r cyhoedd, mae bron i hanner yn orielau, ond maent yn cynnwys stiwdios a sefydliadau datblygu hefyd. Mae'r rhain wedi eu gwasgaru ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban - â'r mwyafrif ohonynt y tu allan i Lundain.

Maent yn debygol o gynnal 6+ o arddangosfeydd y flwyddyn, er y bydd rhai'n cynnal arddangosfeydd llai, neu arddangosfeydd am gyfnodau byrrach e.e. ar gyfer aelodau neu gymdeithion.

Mae eu cyllidebau ar gyfer rhaglenni arddangos blynyddol yn debygol o amrywio o £50,000 i £150,000, er mwyn adlewyrchu amrywiaeth o fathau o sefydliadau a modelau ariannu.

Categori C

Gwaith newydd: £4,000

Gwaith sy'n bodoli eisoes: £2,000

Mae'r categori hwn yn cynrychioli grŵp bach o orielau mawr yn bennaf, ac ambell i ganolfan celfyddydau cyfunol mwy o faint sy'n cyflwyno arddangosfeydd i'r cyhoedd. Mae'r mwyafrif (72%) y tu allan i Lundain.

Maent yn debygol o gynnal 4+ o arddangosfeydd yn eu prif ofod arddangos y flwyddyn.

Mae eu cyllidebau ar gyfer rhaglenni arddangos blynyddol yn debygol o amrywio o tua £300,000 i £500,000.

Categori B

Gwaith newydd: £2,000

Gwaith sy'n bodoli eisoes: £1,000

Orielau a chanolfannau'r celfyddydau yw traean o'r holl sefydliadau yn y categori hwn sy'n cyflwyno arddangosfeydd i'r cyhoedd, ond maent yn cynnwys stiwdios, gwyliau a rhai sefydliadau datblygu'r celfyddydau gweledol hefyd. Mae'r mwyafrif (77%) y tu allan i Lundain.

Maent yn debygol o gynnal 4-6 o arddangosfeydd yn eu prif gofodau arddangos y flwyddyn, er bod rhai yn cynnal mwy o arddangosfeydd â chapasiti llai.

Mae eu cyllidebau ar gyfer rhaglenni arddangos blynyddol yn debygol o amrywio o £150,000 i £300,000.

Categori D


Gwaith newydd: £6,000

Gwaith sy'n bodoli eisoes: £3,500

Mae'r categori yma'n cynrychioli grŵp bach iawn o sefydliadau sylweddol ym maes y celfyddydau gweledol sy'n cyflwyno arddangosfeydd i'r cyhoedd - orielau mawr yw'r rhain yn bennaf. Mae traean o'r rhain yn Llundain a'r gweddill mewn dinasoedd mawr ar y cyfan.

Mae'r rhain yn debygol o gynnal o leiaf 6+ o arddangosfeydd graddfa fawr y flwyddyn, ac maent yn gallu cynnal sawl arddangosfa graddfa fawr yr un pryd.

Mae eu cyllidebau ar gyfer rhaglenni arddangos blynyddol yn amrywio o £500,000 i £1m+



Uchod: Dadansoddiad o'r mathau o sefydliadau fesul categori fframwaith

Categori A: 48% Categori B: 29% Categori C: 15% Categori D: 8%

Yn achos sioeau grŵp, dylid rhannu'r taliadau yn ôl nifer yr artistiaid a gyflwynir, hyd at uchafswm o 10 artist.

Yn achos arddangosfeydd grŵp Categori A â 7+ o artistiaid, neu sioeau grŵp â 10+ o artistiaid mewn unrhyw gategori, ni ddylai unrhyw artist dderbyn llai na £100 yr un.

Mae canllawiau cynhwysfawr ar daliadau teg am gyflawni gwaith comisiwn, cyfnodau preswyl, gweithdai'r celfyddydau cysylltiedig a chyfranogol, prosiectau cymunedol, gwaith addysg mewn amgueddfeydd a sgysiau cyhoeddus yng Nghanllawiau a-n [ar ffioedd a chyfraddau dyddiol ar gyfer artistiaid gweledol](#). Gellir cael manylion sefydliadau eraill sy'n cynhyrchu canllawiau [yma](#).

NODYN: Mae ffigurau'r Fframwaith Taliadau Arddangos yn seiliedig ar (i) ffioedd a gyflwynwyd gan sefydliadau arddangos trwy Ymgynghoriadau Sector ar Dalu Artistiaid; (ii) data di-enw ar sail 166 o sefydliadau arddangos sy'n cael eu hariannu'n rheolaidd yn y sector cyhoeddus; (iii) fformwla sy'n cynnwys y gofynion arddangos cyfartalog blynyddol a throsiant sefydliadau arddangos, a disgwyliadau artistiaid o ran incwm cyfartalog sy'n adlewyrchu ffactorau fel hyd eu gyrfaedd, eu profiad a'u costau ymarfer.

Rhestr Termau

Ariannwr: awdurdod, sefydliad, cwango neu dalwr grantiau'r llywodraeth, fel cyngor y celfyddydau, awdurdod lleol, adran neu athrofa addysg uwch, a chyrrff cyhoeddus anadrannol eraill.

Artist: artist proffesiynol gweithredol sy'n darparu gwaith celf (gwaith newydd neu a gynhyrchwyd eisoes) i'w gyflwyno i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys artistiaid gweledol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys celf gain, ffilm a ffotograffiaeth, gwaith perfformio, sain ac aml-gyfrwng ar gyfer amrywiaeth o drefnwyr arddangosfeydd a chyd-destunau.

Buddion anariannol: Gall rhai sefydliadau sy'n gweithio â chyllidebau cyfyngedig iawn, fel sefydliadau neu grwpiau dan arweiniad artistiaid, gynnig buddion anariannol yn lle Taliadau Arddangos (e.e. cyfleoedd datblygiad proffesiynol, mentora, neu fynediad at gyfleusterau penodedig a fyddai'n dwyn cost i'r artist fel arall, fel stiwdio neu le gwaith).

Lle cynigir manteision anariannol, dylent fod o werth ymarferol neu broffesiynol gwirioneddol i'r artist (ni ddylent fod yn weithgareddau neu'n wasanaethau y dylai sefydliad gyllidebu ar eu cyfer yn rhan o'u costau gweithredol pob dydd) a dylid cofnodi'r gwerth arian parod cyfatebol yn y gyllideb. Os yw cyllideb arddangos flynyddol sefydliad yn llai na £50,000, cyfeiriwch at [Faniffesto Dan Arweiniad Artistiaid](#) Talu Artistiaid.

Fel mater o arfer da, ni ddylai sefydliadau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus ddefnyddio buddion anariannol yn lle taliadau arian parod

Contract neu lythyr cytundeb: Gweler y [Canllaw cyflym i gontractau](#) a'r [Canllaw cyflym i gytundebau arddangos](#) neu defnyddiwch y cytundeb Arddangos ym [Mhecyn Cymorth Contractau](#) a-n i lunio contract pwrpasol.

Cyllideb: amcangyfrif o incwm a threuliau wedi ei eitemeiddio dros gyfnod penodedig o amser at ddibenion cynllunio, asesu cynnydd a helpu i leihau risgiau, a chaiff ei diweddarw wrth i gostau a gweithgareddau newid. Dylid hysbysu'r person perthnasol am unrhyw newidiadau o bwys cyn gynted â phosibl. Fel mater o arfer gorau, dylid cofnodi Taliadau Arddangos fel llinell ar wahân yng nghyllidebau arddangosfeydd a phrosiectau, a dylid adrodd ar hyn yn flynyddol. Gweler y [Canllawiau cyflym ar gyllidebau](#).

Cynnig ar gyfer Arddangosfa: dylai'r artist baratoi hyn er mwyn adlewyrchu maint a graddfa'r gofod arddangos, a dylai gynnwys: disgrifiad o'r gwaith arfaethedig; bywgraffiad neu CV yr artist; dolenni i bortffolio'r artist neu ddelweddu o waith perthnasol neu ddiweddar; amcangyfrif o ran faint o le sydd ei angen i arddangos y gwaith; a chyllideb wedi ei heitemeiddio ar gyfer cyflawni'r arddangosfa.

Dan arweiniad artistiaid: enw cyffredinol am sawl math o weithgarwch a gynhyrchir gan artistiaid, gan gynnwys gofodau oriel neu brosiectau a gynhelir gan artistiaid i gyflwyno eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Gallai'r rhain fod yn debyg i ofodau oriel traddodiadol, neu gallant arddel dull gwahanol a ddiffinnir gan yr artistiaid eu hunain. Am arweiniad ar gymhwyso egwyddorion arferion gorau ar gyfer Taliadau Arddangos mewn cyd-destunau dan arweiniad yr artist, cyfeiriwch at [Faniffesto Dan Arweiniad Artistiaid](#) Talu Artistiaid.

Ffi sefydlog: mae rhai sefydliadau'n talu taliad sefydlog safonol i'r holl artistiaid y maent yn arddangos eu gwaith. Fel mater o arfer gorau, dylai'r taliad ddod o fewn canllawiau cyffredinol y Fframwaith Taliadau Arddangos.

Gwaith Comisiwn: cais penodol gan sefydliad i artist i greu gwaith newydd ar gyfer arddangosfa. Dylai hyn gynnwys ffi comisiynu, sy'n cydnabod amser yr artist

wrth ymchwilio, datblygu a chynhyrchu'r gwaith. Gallai gynnwys cost deunyddiau, offer, talu ffioedd i bobl eraill a chostau eraill sy'n angenrheidiol i gyflawni'r gwaith - dylid cytuno ar y rhain oll ymlaen llaw, a dylai fod llinell ar gyfer ffi'r artist yn y gyllideb, a hynny ar wahân i'r costau cynhyrchu eraill.

Ni fydd pob comisiwn ar gyfer gwaith celf weledol yn arwain at arddangosfa, ond os yw hi, dylai fod yna eglurder o ran beth y mae'r ffi comisiynu'n ei gwmpasu, a beth nad yw'n ei gwmpasu. Yn dibynnu ar bolisi comisiynu sefydliad, nid yw 'ffi comisiynu' yn nacáu talu Taliad Arddangos.

Negodi: proses safonol rhwng dau barti i ddod i gytundeb, am delerau ariannol fel rheol. Mae hyn yn cynnwys paratoi a chasglu gwybodaeth a fydd yn bwydo'r trafodaethau; dod i gytundeb o ran diwallu a chyflawni cynigion drafft; cyfle i bob ochr drafod y cynigion a darparu gwybodaeth bellach; bargeinio a datrys problemau (i ba raddau y mae'r naill ochr a'r llall yn fodlon ildio ar sail yr amrywiolion y maent wedi eu clustnodi er mwyn dod i gytundeb); a dod i gytundeb a'i ffurfioli mewn dogfen ysgrifenedig, a honno'n ddelfrydol wedi ei llofnodi gan y naill ochr a'r llall. Gweler Contract neu lythyr cytundeb. Gweler y [Canllaw cyflym i negodi](#).

Polisiau: mae sefydliadau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus (elusennau'n aml, ond nid pob tro) yn dangos llywodraethu da trwy fod yn dryloyw o ran eu harferion gwaith a thalu. Mae arianwyr cyhoeddus yn aml yn mynnu bod sefydliadau'n paratoi polisiau sy'n nodi'n glir eu dulliau o sicrhau taliadau teg, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gellir addasu'r polisiau hyn i gynnwys datganiadau am sut y mae'r sefydliad yn mynd ati i sicrhau arfer gorau o ran Taliadau Arddangos, neu gall y sefydliad ddewis paratoi datganiad ar wahân sy'n hysbysu budd-ddeiliaid sut y maent yn gweithio gydag artistiaid ac yn eu talu.

Sefydliadau: sefydliad neu brosiect sy'n derbyn cyllid cyhoeddus (e.e. gan gyngor y celfyddydau, awdurdod lleol neu athrofa addysg uwch) sy'n cyflwyno arddangosfeydd y celfyddydau gweledol i'r cyhoedd yn rhan o'i raglen. Gall hyn gynnwys (er nad yw'r rhestr yn hollol gynhwysfawr) orielau, amgueddfeydd, canolfannau'r celfyddydau, stiwdios, gweithdai, gwyliau, cynhyrchwyr celf, gwobrau celf, sefydliadau datblygu'r celfyddydau gweledol, a chyrff cyhoeddus anadrannol eraill (e.e. y Comisiwn Coedwigaeth, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

Taliad Arddangos: taliad i artist sy'n cydnabod ei gyfraniad deallusol unigryw at arddangosfa gyhoeddus pan fo gwaith newydd neu waith sy'n bodoli eisoes yn cael ei ddewis i'w gyflwyno i'r cyhoedd. Mae Taliad Arddangos yn wahanol i gostau rhaglennu neu drefnu sylfaenol, a chostau gwasanaethau, cynhyrchu, gosod neu gludo, neu'r cyfraddau dyddiol a delir i artistiaid fel rheol am weithgareddau fel comisiynau (gweler Gwaith Comisiwn), cyfnodau preswyl, gweithdai, gwaith cyfranogol, addysg neu sgysia.

Gwybodaeth bellach

a-n yw sefydliad aelodaeth fwyaf y DU sy'n cynrychioli artistiaid gweledol proffesiynol. Mae ganddo dros 20,000+ o aelodau. Rydyn ni'n darparu eiriolaeth ar ran ein haelodau, yn cefnogi eu harferion proffesiynol trwy ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant, ac yn cyflawni gwaith ymchwil gyda nhw ac ar gyfer y sector er mwyn gwella bywoliaeth artistiaid.

Lansiwyd yr Ymgyrch Talu Artistiaid trwy a-n a'i gyngor cyngori artistiaid (AIR) yn 2014, a hynny mewn ymateb i anghenion a dyheadau ein haelodau. Fe'i seiliwyd ar dystiolaeth a gasglwyd trwy waith ymchwil am effaith arferion talu gwael ar artistiaid.

Cyflawnwyd Ymgynghoriad Talu'r Sector Artistiaid (2014-2016) gan a-n ac AIR, gyda DHA Communications, a chasglwyd safbwyntiau bron i 2,000 o unigolion o bob rhan o'r sector.

www.a-n.co.uk

www.payingartists.org.uk gwybodaeth am yr ymgyrch, ein cefnogwyr a chysylltiadau â'r holl waith ymchwil ac adnoddau cysylltiedig.

Rydyn ni'n croesawu eich adborth i helpu i gyflunio rhifynnau'r dyfodol o Daliadau Arddangos yn campaigns@a-n.co.uk.

Taliadau Arddangos:

Canllawiau a-n/AIR ar dalu Artistiaid

Ar gyfer artistiaid a sefydliadau sy'n arddangos (Argraffiad Cyntaf), cyhoeddwyd 12 Hydref 2016.

© a-n The Artists Information Company

Diolch

Gyda diolch: i'r cannoedd o artistiaid, curaduron, cyfarwyddwyr orielau, swyddogion y celfyddydau, arianwyr, gwneuthurwyr polisi, partneriaid rhyngwladol, sefydliadau cymorth a gwleidyddion a gyfrannodd at ein hymgyngoriad ar Dalu Artistiaid ac at ddatblygiad y canllawiau a'r fframwaith taliadau, a hefyd i:

Cyngor AIR | Aelodau a-n | Bwrdd a-n | Staff a Gweithwyr ar eu Liwt eu Hunain a-n | DHA | Noel Kelly | Tîm yr Ymgyrch Talu Artistiaid | Susan Jones MBE a Richard Padwick

Conrad Atkinson | Jeremy Deller | Margaret Harrison | Richard Layzell | Yinka Shonibare MBE | Joanne Tatham | Jane Wilson

Canolfan Celfyddydau Cyfoes y Baltig, Gateshead | CCA, Glasgow | The Collection, Lincoln | Fabrica, Brighton | Oriel Fruitmarket, Caeredin | g39, Caerdydd | Oriel Impressions, Bradford | Jerwood Space, Llundain | Celf Fodern Rhydychen | The Showroom, Llundain | Whitstable Biennial

Cyngor Celfyddydau Lloegr | Cyngor Celfyddydau Cymru | Creative Scotland

Undeb Artistiaid Lloegr | Rhwydwaith y Celfyddydau Gweledol Cyfoes | Uned Artistiaid yr Alban | Rhwydwaith Celfyddydau Cyfoes yr Alban | Celfyddydau Gweledol Iwerddon

Gyda chyfeiriadau at: CARFAC (Canada), BKF Artistiaid Gweledol Denmarc, Canolfan Hybu Celfyddydau'r Ffindir, KRO/KIF (Sweden), Cyngor Celfyddydau Norwy, Platform BK (Yr Iseldiroedd), NAVA (Awstralia), VisArte (Y Swistir), W.A.G.E. (Efrog Newydd).



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**

Mae a-n yn sefydliad portffolio cenedlaethol i Gyngor Celfyddydau Lloegr